## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â steilio a chaboli côt ci gan ddefnyddio dulliau tocio amrywiol.

Mae'n cynnwys defnyddio technegau trafod perthnasol, adnabod mathau o gotiau a siâp pennau a dulliau tocio cywir i gyflawni'r canlyniad dymunol.

Eich cyfrifoldeb chi yw monitro eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, y ci â’r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu'r ddyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sydd yn steilio ac yn caboli côt ci.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
5. cadarnhau bod yr ardal waith ar gyfer steilio a chaboli côt y ci yn ddiogel, yn gadarn, yn lân ac yn barod i'w defnyddio
6. dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw offer a chyfarpar yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi sefydliadol
7. dewis a gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
8. arsylwi ac adnabod ymddygiad y ci a chofnodi hyn lle bo angen
9.
mynd at y ci, ei drafod a'i atal mewn ffordd sydd yn sicrhau lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
10.
steilio a chaboli'r ci yn unol â gofynion y cleient, y cynllun y cytunwyd arno â'r math o frîd
11. defnyddio'r dulliau tocio cywir ar gyfer math a steil y gôt
12. creu'r siâp gofynnol ar gyfer y corff â'r gwddf
13. creu'r siâp gofynnol ar gyfer y coesau, y traed â'r cynffon
14. creu'r siâp gofynnol ar gyfer y pen â'r clustiau
15. cwblhau eich gwaith o fewn y graddfeydd amser a gadarnhawyd gyda'r cleient, gan gynnal lles y ci yr holl amser
16. ymdrin â gwastraff yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol a deddfwriaeth berthnasol
17. glanhau, sterileiddio a storio'r offer â'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer steilio a chaboli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi sefydliadol, ac adrodd am unrhyw namau

18. trosglwyddo'r ci i lety addas yn barod ar gyfer ei gasglu
19. cwblhau cofnodion fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
eich cyfrifoldebau proffesiynol wrth steilio a chaboli cotiau cŵn a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnal cymhwysedd proffesiynol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
5. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch â'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
6. y mathau o offer a chyfarpar sydd yn ofynnol ar gyfer steilio a chaboli côt ci a sut i ddewis, paratoi, defnyddio a chynnal y rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau sefydliadol
7. pam y mae'n bwysig arsylwi ac asesu iaith corff y ci cyn dechrau gwaith ac arwyddion i chwilio amdanynt
8. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn a ble i gael cyngor ac arweiniad lle bo angen
9. mathau o gotiau Kennel Club UK a'u nodweddion
10. sut i fynd at gŵn, eu trafod a'u hatal mewn ffordd sydd yn cynnal lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
11. y mathau gwahanol o fridiau a chotiau cŵn â'r technegau torri â'r llinellau tocio ar gyfer bob un
12. sut i farnu'r maint cywir o flew i'w dorri neu ei dorri â siswrn a pham y mae'n bwysig peidio â thynnu gormod
13. sut i gynnal dulliau tocio gwahanol
14. pryd y bydd angen teneuo a chyfuno
15. sut i gyflawni'r siâp gofynnol ar gyfer y corff â'r gwddf
16. sut i gyflawni'r siâp gofynnol ar gyfer y coesau, y traed â'r cynffon
17. sut i gyflawni'r siâp gofynnol ar gyfer y pen â'r clustiau
18. pam y mae angen gofal penodol wrth dynnu blew ychwanegol o ardal y llygaid,

y clustiau, yr ardal rhefrol â’r organau cenhedlu o fewn terfynau eich rôl

19. y technegau ar gyfer steilio a chaboli

20.

y graddfeydd amser ar gyfer cwblhau gweithgareddau, yn unol â pholisi'r gweithle a gofynion y cleient

21.

arwyddion trallod mewn cŵn â’r camau y dylid eu cymryd pan fydd y rhain yn cael eu harsylwi

22. sut i drin, storio a gwaredu gwastraff, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a pholisïau sefydliadol

23.

sut i archwilio, glanhau a sterileiddio offer a chyfarpar â’r dull cywir o'u storio

24.

sut i ddarparu llety addas ar gyfer y ci rhwng cyfnodau ysgrafellu

25. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â steilio a chaboli cotiau cŵn a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

**Defnyddio'r offer â’r cyfarpar canlynol wrth steilio a chaboli côt ci**

1. clipwyr a llafnau
2. siswrn
3. siswrn teneuo
4. offer stripio

**steilio a chaboli'r mathau canlynol o gotiau:**

1. gwlân
2. weiar
3. sidan
4. dwbl – hir a byr
5. llyfn

**cyflawni'r siapiau pen canlynol:**

1. pen crwn
2. pen gydag aeliau rhanedig byr
3. pen gydag aeliau rhanedig hir
4. pen gydag aeliau sydd yn syrthio yn y canol
5. pen glân
6. wyneb glân

**defnyddio'r dulliau tocio canlynol:**

1. côt corff wedi ei dorri â siswrn
2. côt corff sylfaenol wedi ei stripio â llaw
3. côt uwch wedi ei stripio â llaw
4. côd ci adara wedi ei stripio a llaw
5. côt corff wedi ei dorri
6. siapiau coesau a thraed wedi eu torri â siswrn
7. cynffon wedi ei dorri â siswrn/wedi ei dorri neu gyfuniad
8. cyfuno

## Geirfa

**Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:**

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol

**Gallai cyfarpar a dillad amddiffynnol gynnwys:**

- menig
- ffedog

LANAnC39

Steilio a chaboli côt ci

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAnC48 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ysgrafellu cŵn |
| **Cyfres/Set** | Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | ci; ysgrafellu; steil; côt |